

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD ANFFURFIOL 2021
7 Mehefin 2021, 7.30 o bell drwy gyfrwng fideo

Gan nad oedd cworwm o fewn 10 munud i ddechrau'r cyfarfod cafwyd cyfarfod anffurfiol er mwyn trafod amrywiol faterion

1. Presennol

Elin Jones, Dafydd Watts

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Datgan Diddordeb

Dim

3. Ymddiheuriadau

Eleri Owen, Dion Rhys, Richard Jones

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 10 Mai 2021

Gan nad oedd cworwm ni thrafodwyd cofnodion cyfarfod 10 Mai 2021

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Anghenion Tai Lleol a Deiseb Garreg Frech

Lluniodd y Clerc holiadur er mwyn i'r Cyngor cymuned fedru cynnal eu harolwg tai eu hunain. Fodd bynnag, teimlwyd y byddai'n ymarferol anodd cynnal arolwg o'r fath, ac mae'r cam gorau ymlaen fyddai i gynnal cyfarfod cyhoeddus efo cynrychiolwyr Anghenion Tai Gwledig Cynefin ac Adra yn bresennol.

Gofynnwyd felly i'r Clerc holi Anghenion Tai Gwledig Cynefin ac ADRA er mwyn gweld a fyddent yn cytuno i fynychu cyfarfod, a diweddarau grŵp trigolion Garreg Frech am y sefyllfa.

5.2 13 Garreg Frech

Mae aelod o'r cyhoedd wrthi'n ysgrifennu at Gyngor Gwynedd parthed y mater, ac os na cheir ateb derbyniol, bydd yn gwneud cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

5.3 Y Ganolfan

Mae angen clirio'r hen ddarn metel sgrap sydd y tu cefn i'r Ganolfan.

Mae Gofod Gwag Gwynedd efo diddordeb i wneud defnydd o ofodau gwag yn y Sir, e.e. adeiladau gwag. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â nhw er mwyn gweld a fyddai ganddynt ddiddordeb i ystyried gwneud defnydd o'r Ganolfan.

5.4 Ynni Hydro Croesor

Cafwyd ateb gan Ymddiriedolwyr Stad Brondanw. Maent yn fodlon cynnig 10% o incwm net y prosiect i Gyngor Cymuned Llanfrothen, l'w wario ar brosiectau sydd yn cael cymeradwyaeth yr ymddiriedolwyr.

Byddai'r trefniant yna yn parhau hyd nes bod cyfnod ad-dalu'r ddyled ganddynt wedi dod i ben yn 2040, gydag adolygiad o'r sefyllfa bryd hynny.

Cytunwyd fod y cynnig yn fan cychwyn ar gyfer trafodaethau. Mae'n debyg y bydd yna ychydig iawn o elw ar y cychwyn ond posibilrwydd o wneud elw sylweddol yn y dyfodol.

Bydd y Cynghorydd Dafydd Watts yn ystyried y cynnig ac yn paratoi sylwadau ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf

5.5 Llwybr Cerdded a Beicio Llanfrothen i Benrhyn

Mae Cyngor Tref Penrhyndeudraeth yn bwriadu trafod y mater yma yn eu cyfarfod ym mis Mehefin.

5.5 Rheoli Llifogydd Dalgylch Afon Glaslyn

Mae'r Clerc wedi danfon union leoliad ble mae llif yr afon Glaslyn yn cael ei heffeithio, sef cydlifiad yr afon Gaseg i'r afon Glaslyn at Gyfoeth Naturiol Cymru.

6. Materion Ariannol

6.1 Ni thrafodwyd unrhyw faterion ariannol.

7. Gohebiaeth

- Cyngor Gwynedd - gwaith ffordd ardal Llanfrothen Mehefin 2021
- Llythyr diolch rhodd gan Yr Wylan
- Llythyr diolch rhodd gan Ysgol Y Garreg, Llanfrothen
- Argyfwng tai – Llythyr Cyngor Tref Nefyn
- Ymgynghoriad Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus : Rheoli Cŵn

Derbyniwyd yr uchod er gwybodaeth.

8. Cynllunio

Dim

9. Materion Eraill

9.1 Tafarn Y Ring

Mae golwg braidd yn flêr ar y dafarn a biniau wedi eu gorlenwi.

Mae'n debyg mai biniau sydd i'w gwagio gan Gyngor Gwynedd yw'r rhain, ond ni fydd Cyngor Gwynedd yn eu gwagio os na chant eu rhoi allan ger y lôn i'w casglu

9.2 Biniau'r fynwent a'r Ganolfan

Mae'r biniau wedi cael eu symud o'r fynwent, a hyd yn hyn does dim sbwriel wedi ei adael. Felly'n fe ymddengys fod pethau'n gweithio'n dda ar hyn o bryd.

Ceir 3 bin o flaen Y Ganolfan yn llawn o bridd. Maent wedi bod yno ers rhai blynyddoedd a dydyn nhw ddim yn perthyn i'r ysgol. Trafodwyd gofyn i Gyngor Gwynedd eu gwagio.

Ceir hefyd bin gwyrdd efo sbwriel ac fe gytunwyd rhoi hwnnw allan i'w wagio ac yna ei gadw yn adeilad Y Ganolfan.

Mae yna hefyd fin mawr glas. Mae'r ysgol wedi egluro mai bin dillad ailgylchu ydy hwnnw a bod Seren yn ei wagio bob hyn a hyn ar ran yr ysgol.

9.3 Ffurflen Flynyddol

Cytunwyd i gynnal cyfarfod ar 28 Mehefin er mwyn cymeradwyo Ffurflen Flynyddol 2020/21 a chynnal y cyfarfod llawn nesaf ar 5 Gorffennaf.